# Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018

**2018 dccc 1**

Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth ynghylch diddymu'r hawl i brynu, yr hawl i gaffael a hawliau cysylltiedig; ac at ddibenion cysylltiedig. [24 Ionawr 2018]

**Gan ei fod wedi ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

## 1 Trosolwg

(1) Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o brif ddarpariaethau'r Ddeddf hon.

(2) Mae adran 2 yn cyfyngu ar arfer yr hawl i brynu hyd nes i'r hawl honno gael ei diddymu (gweler adran 6); ac mae adran 3 yn gwneud darpariaeth ar gyfer eithriadau i'r cyfyngiad hwnnw.

(3) Mae adran 4 yn cyfyngu ar arfer yr hawl i gaffael hyd nes i'r hawl honno gael ei diddymu (gweler adran 6); ac mae adran 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer eithriad i'r cyfyngiad hwnnw.

(4) Mae adran 6 yn gwneud darpariaeth i'r hawl i brynu a'r hawl i gaffael beidio â bodoli yng Nghymru.

(5) Mae adran 7 yn dileu pŵer Gweinidogion Cymru i roi grantiau i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a darparwyr preifat cofrestredig tai cymdeithasol mewn cysylltiad â disgowntiau a roddir i denantiaid sy'n prynu eu hanheddau.

(6) Mae adran 8—

(a) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu gwybodaeth i landlordiaid a phersonau eraill sydd â buddiant ynglŷn â newidiadau i'r gyfraith a wneir gan y Ddeddf hon, a

(b) yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid roi gwybod i'w tenantiaid am y newidiadau hynny.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 24/03/2018. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018. (See end of Document for details)*

(7) Mae adrannau 9, 10, 11 a 12 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol ynglŷn â'r Ddeddf; effaith adran 11 yw—

(a) bod adran 8 (darparu gwybodaeth) yn dod i rym pan geir y Cydsyniad Brenhinol,

(b) bod adrannau 2 i 5 (cyfyngu ar arfer yr hawliau) yn dod i rym ddau fis ar ôl cael y Cydsyniad Brenhinol, ac

(c) y caniateir dod ag adrannau 6 a 7 (diddymu'r hawliau etc.) i rym drwy orchymyn a wneir drwy offeryn statudol heb fod yn gynharach na deuddeg mis ar ôl cael y Cydsyniad Brenhinol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 1 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 11(1)**

*Cyfyngiad ar arfer yr hawl i brynu a'r hawl i gaffael*

## 2 Cyfyngiad ar arfer yr hawl i brynu

(1) Mae Deddf Tai 1985 (Housing Act 1985 (c. 68)) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl adran 121 (amgylchiadau na ellir arfer yr hawl i brynu ynddynt), mewnosoder—

**"121ZA Restriction on exercising the right to buy in Wales**

(1) The right to buy cannot be exercised in respect of a dwelling-house in Wales unless—

(a) the dwelling-house is from previously let social housing stock, or

(b) any of the cases specified in section 121ZB applies, or has applied, in respect of the dwelling-house.

(2) For the purposes of this Part—

(a) a dwelling-house is from previously let social housing stock if, at any time during the period of six months ending with the relevant date, it has been—

(i) let under a secure tenancy,

(ii) let under an introductory tenancy (within the meaning given by Chapter 1 of Part 5 of the Housing Act 1996 (c. 52)),

(iii) let under a demoted tenancy (within the meaning given by section 143A of the Housing Act 1996), or

(iv) a qualifying dwelling-house in relation to the preserved right to buy (see section 171B);

(b) "relevant date" means the day on which section 2 of the Abolition of the Right to Buy and Associated Rights (Wales) Act 2017 comes into force.

(3) This section does not affect the computation of any period under Schedule 4."

(3) Yn adran 171B (rhychwant yr hawl i brynu a gadwyd), ar ôl is-adran (6), mewnosoder—

"(7) Nothing in subsection (6) gives a person the right to exercise the preserved right to buy in respect of a dwelling-house in Wales unless—

(a) the dwelling-house is from previously let social housing stock (see section 121ZA), or

(b) any of the cases specified in section 121ZB applies, or has applied, in respect of the dwelling-house."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 2 mewn grym ar 24.3.2018, gweler **a. 11(2)**

## 3 Eithriadau i'r cyfyngiad ar arfer yr hawl i brynu

(1) Mae Deddf Tai 1985 (Housing Act 1985 (c. 68)) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl adran 121ZA (cyfyngiad ar arfer yr hawl i brynu yng Nghymru), mewnosoder—

### "121ZB Exceptions to restriction on exercising the right to buy in Wales

(1) The first case applies in respect of a dwelling-house (the "exempted dwelling") if—

(a) after the relevant date, the court orders a person who has the right to buy to give up possession of a dwelling-house,

(b) the order is made on any of the grounds set out in Parts 2 or 3 of Schedule 2,

(c) the person becomes the tenant of the exempted dwelling, and

(d) the exempted dwelling is suitable alternative accommodation for the purposes of the order.

(2) The second case applies in respect of a dwelling-house (the "exempted dwelling") if—

(a) after the relevant date, the court orders a person who has the preserved right to buy (see section 171B) to give up possession of a dwelling-house,

(b) the order is made—

(i) on Ground 9 in Schedule 2 to the Housing Act 1988 (c. 50) (possession of dwelling-house let under assured tenancy on grounds that there is suitable alternative accommodation), or

(ii) in pursuance of section 98(1)(a) of the Rent Act 1977 (c. 42) (limitation on recovery of possession of dwelling-houses let under certain tenancies),

(c) the person becomes the tenant of the exempted dwelling, and

(d) the exempted dwelling is suitable alternative accommodation for the purposes of the order.

(3) The third case applies in respect of a dwelling-house (the "exempted dwelling") if—

(a) the exempted dwelling has, at some time during the period of six months ending with the relevant date, been let by a registered social

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 24/03/2018. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018. (See end of Document for details)*

landlord or a private registered provider of social housing under an assured tenancy (other than a long tenancy),

(b) after the relevant date, a person having the preserved right to buy in respect of another dwelling-house ("the relevant dwelling-house") becomes the tenant of the exempted dwelling, and

(c) the exempted dwelling becomes the relevant dwelling-house for the purposes of section 171B(6).

(4) The Welsh Ministers may, by regulations made by statutory instrument, amend this section by adding additional cases.

(5) Regulations under subsection (4) may not be made unless a draft of the statutory instrument containing the regulations has been laid before and approved by a resolution of the National Assembly for Wales."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 3 mewn grym ar 24.3.2018, gweler **a. 11(2)**

## 4 Cyfyngiad ar arfer yr hawl i gaffael

(1) Mae Deddf Tai 1996 (Housing Act 1996 (c. 52)) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl adran 16A (estyn yr hawl i gaffael i anheddau a ariannwyd drwy grantiau o dan adran 27A), mewnosoder—

**"16B Restriction on exercising the right to acquire**

(1) But the right to acquire cannot be exercised in respect of a dwelling unless—

(a) the dwelling is from previously let social housing stock, or

(b) section 16C applies, or has applied, in respect of the dwelling.

(2) For the purposes of this Part—

(a) a dwelling is from previously let social housing stock if, at any time during the period of six months ending with the relevant date—

(i) it has been let by a registered social landlord or a private registered provider of social housing under an assured tenancy (other than a long tenancy), or

(ii) it has been let under a secure tenancy, and

(b) "relevant date" means the day on which section 4 of the Abolition of the Right to Buy and Associated Rights (Wales) Act 2017 comes into force.

(3) This section does not affect the computation of any period under Schedule 4 to the Housing Act 1985."

(3) Yn adran 16 (hawl tenant i gaffael annedd), yn is-adran (1), ar y dechrau, mewnosoder "Subject to section 16B,".

(4) Yn adran 21 (grant prynu mewn cysylltiad â gwarediadau penodol), ar ôl is-adran (2), mewnosoder—

"(2A) But subsection (2) does not apply in respect of a discount on a disposal of a dwelling unless—

(a) the dwelling is from previously let social housing stock, or

(b) section 16C applies, or has applied in respect of the dwelling."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** A. 4 mewn grym ar 24.3.2018, gweler **a. 11(2)**

## 5 Eithriad i'r cyfyngiad ar arfer yr hawl i gaffael

(1) Mae Deddf Tai 1996 (Housing Act 1996 (c. 52)) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl adran 16B (cyfyngiad ar arfer yr hawl i gaffael), mewnosoder—

### "16C Exception to restriction on exercising the right to acquire

(1) This section applies in respect of a dwelling (the "exempted dwelling") if—

(a) after the relevant date, the court has ordered a person to give up possession of a dwelling,

(b) the order is made—

(i) on any of the grounds set out in Parts 2 or 3 of Schedule 2 to the Housing Act 1985 (c. 68) (discretionary grounds for possession of dwelling let under secure tenancy), or

(ii) on Ground 9 in Schedule 2 to the Housing Act 1988 (c. 50) (possession of dwelling let under assured tenancy on grounds that there is suitable alternative accommodation),

(c) the person becomes the tenant of the exempted dwelling, and

(d) the exempted dwelling is suitable alternative accommodation for the purposes of the order.

(2) The Welsh Ministers may, by regulations made by statutory instrument, amend this section by making provision for further circumstances in which this section applies in respect of a dwelling.

(3) Regulations under subsection (2) may not be made unless a draft of the statutory instrument containing the regulations has been laid before and approved by a resolution of the National Assembly for Wales."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** A. 5 mewn grym ar 24.3.2018, gweler **a. 11(2)**

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 24/03/2018. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Diddymu’r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018. (See end of Document for details)*

VALID FROM 26/01/2019

*Diddymu’r hawl i brynu a’r hawl i gaffael*

**6 Diddymu’r hawl i brynu a’r hawl i gaffael**

(1) Nid yw’r hawliau a ganlyn yn bodoli mwyach mewn perthynas ag anheddau yng Nghymru—

(a) yr hawl i gaffael rhydd-ddaliad tŷ annedd, na’r hawl i gael les ar dŷ annedd, yn unol â Rhan 5 o Ddeddf Tai 1985 (Housing Act 1985 (c. 68)) (yr hawl i brynu);

(b) yr hawl i gaffael annedd yn unol ag adran 16 o Ddeddf Tai 1996 (Housing Act 1996 (c. 52)) (yr hawl i gaffael).

(2) Yn unol â hynny, diddymir y deddfiadau a ganlyn—

(a) adrannau 2 a 3 o’r Ddeddf hon (cyfyngiad ar arfer yr hawl i brynu etc.), ac adrannau 121ZA, 121ZB a 171B(7) o Ddeddf Tai 1985 (a fewnosodir gan adrannau 2 a 3 o’r Ddeddf hon);

(b) adrannau 4 a 5 o’r Ddeddf hon (cyfyngiad ar arfer yr hawl i gaffael etc.), ac adrannau 16B, 16C ac 21(2A) o Ddeddf Tai 1996 (a fewnosodir gan adrannau 4 a 5 o’r Ddeddf hon);

(c) adran 8 o’r Ddeddf hon.

(3) Mae Atodlen 1 (sy’n gwneud diwygiadau a diddymiadau canlyniadol) yn cael effaith.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** A. 6 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 11(3)**

VALID FROM 26/01/2019

*Grantiau disgownt*

**7 Dileu’r pŵer i roi grantiau mewn cysylltiad â disgowntiau**

(1) Mae Deddf Tai 1996 (Housing Act 1996 (c. 52)) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Mae adran 21 (grant prynu gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â gwaredu anheddau am bris gostyngol ac eithrio yn unol â’r hawl i gaffael) wedi ei diddymu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** A. 7 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 11(3)**

*Dyletswydd i ddarparu gwybodaeth i denantiaid a darpar denantiaid*

**8 Gwybodaeth i denantiaid a darpar denantiaid**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru, o fewn mis i'r adran hon ddod i rym—

(a) llunio dogfen yn cynnwys gwybodaeth y maent yn ystyried y bydd yn cynorthwyo tenantiaid a darpar denantiaid i ddeall effaith y Ddeddf hon, a

(b) cyhoeddi'r wybodaeth ar wefan a gynhelir ar eu rhan.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd, o fewn mis i'r adran hon ddod i rym, gymryd pob cam rhesymol i ddarparu copi o'r wybodaeth i—

(a) pob landlord cymwys;

(b) unrhyw gyrff yr ymddengys i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli buddiannau tenantiaid yng Nghymru;

(c) unrhyw gyrff yr ymddengys i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli buddiannau awdurdodau tai lleol;

(d) unrhyw gyrff yr ymddengys i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli buddiannau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig;

(e) unrhyw gyrff eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

(3) Rhaid i'r wybodaeth, yn benodol, gynnwys y canlynol—

(a) y dyddiad y bydd yr hawl i brynu a'r hawl i gaffael yn peidio â bod yn arferadwy mewn perthynas ag anheddau penodol yn rhinwedd adran 121ZA o Ddeddf Tai 1985 (Housing Act 1985 (c. 68)) ac adran 16B o Ddeddf Tai 1996 (Housing Act 1996 (c. 52)),

(b) y dyddiad y bydd yr hawl i brynu a'r hawl i gaffael yn peidio â bodoli mwyach yng Nghymru, ac

(c) unrhyw wybodaeth arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y bydd yn cynorthwyo tenantiaid a darpar denantiaid i ddeall effaith y Ddeddf hon.

(4) Rhaid i bob landlord cymwys, o fewn dau fis i'r adran hon ddod i rym neu, os yw'n gynharach, o fewn mis i dderbyn copi o'r wybodaeth a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (1)—

(a) darparu i bob un o'i denantiaid perthnasol, hynny o'r wybodaeth y mae'n ystyried ei bod yn berthnasol iddynt (y mae'n rhaid iddi, yn benodol, gynnwys yr wybodaeth a grybwyllir yn is-adran (3)(a) a (b)),

(b) cyhoeddi hynny o'r wybodaeth y mae'n ystyried ei bod yn berthnasol i'w denantiaid a'i ddarpar denantiaid ar ei wefan (y mae'n rhaid iddi, yn benodol, gynnwys yr wybodaeth a grybwyllir yn is-adran (3)(a) a (b)), ac

(c) sicrhau bod copi o'r wybodaeth a gyhoeddir yn unol â pharagraff (b) ar gael i edrych arno (yn ddi-dâl) ym mha bynnag fannau y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

(5) Mae is-adran (6) yn gymwys pan fo, ar ôl y diwrnod y mae'r adran hon yn dod i rym—

(a) person yn cynnig gosod annedd yng Nghymru o dan denantiaeth ddiogel neu denantiaeth ragarweiniol, neu

(b) person sy'n landlord cymdeithasol cofrestredig neu'n ddarparwr preifat cofrestredig tai cymdeithasol yn cynnig gosod annedd yng Nghymru o dan denantiaeth sicr (ac eithrio tenantiaeth hir).

(6) Rhaid i'r person sy'n gwneud y cynnig (y "darpar landlord"), cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r cynnig gael ei wneud, ddarparu i'r darpar denant hynny

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 24/03/2018. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018. (See end of Document for details)*

o'r wybodaeth a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (1) y mae'r darpar landlord yn ystyried ei bod yn berthnasol i'r darpar denant (y mae'n rhaid iddi, yn benodol, gynnwys yr wybodaeth a grybwyllir yn is-adran (3)(a) a (b)).

(7) Wrth wneud trefniadau at ddibenion darparu gwybodaeth o dan is-adrannau (4)(a) a (6), rhaid i landlord neu ddarpar landlord—

(a) rhoi sylw i anghenion a nodweddion tebygol, mewn cysylltiad â darparu gwybodaeth, y personau y mae'r wybodaeth o dan sylw i'w darparu iddynt, a

(b) ystyried a yw'n briodol, gan roi sylw i'r anghenion a'r nodweddion hynny, darparu'r wybodaeth, neu unrhyw ran ohoni, i unrhyw un neu ragor o'r personau hynny mewn modd sy'n wahanol i'r modd y byddai'n cael ei darparu fel arfer.

(8) Yn yr adran hon—

(a) ystyr "awdurdod tai lleol" yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

(b) ystyr "landlord cymwys" yw—

(i) landlord sy'n gosod annedd yng Nghymru o dan denantiaeth ddiogel;

(ii) landlord cymdeithasol cofrestredig;

(iii) darparwr preifat cofrestredig tai cymdeithasol sy'n gosod annedd yn Nghymru (gweler adran 80(3) o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 (Housing and Regeneration Act 2008 (c. 17));

(c) ystyr "tenant perthnasol" yw—

(i) tenant sydd â thenantiaeth ddiogel, tenantiaeth ragarweiniol neu denantiaeth isradd ar annedd yng Nghymru, os oedd y denantiaeth honno'n bodoli ar y diwrnod y daeth yr adran hon i rym;

(ii) mewn perthynas â landlord cymdeithasol cofrestredig neu ddarparwr preifat cofrestredig tai cymdeithasol yn unig, tenant sydd â thenantiaeth sicr ar annedd yng Nghymru (ac eithrio tenantiaeth hir), os oedd y denantiaeth honno'n bodoli ar y diwrnod y daeth yr adran hon i rym;

(d) mae i "tenantiaeth ddiogel", "tenantiaeth ragarweiniol" a "tenantiaeth hir" yr un ystyr ag sydd i "secure tenancy", "introductory tenancy" a "long tenancy" yn Neddf Tai 1985;

(e) ystyr "landlord cymdeithasol cofrestredig" yw corff a gofrestrwyd ar y gofrestr a gedwir o dan adran 1 o Ddeddf Tai 1996;

(f) mae i "tenantiaeth sicr" yr un ystyr ag sydd i "assured tenancy" yn Neddf Tai 1988 (Housing Act 1988 (c. 60)) (ac mae'n cynnwys tenantiaeth fyrddaliol sicr);

(g) ystyr "tenantiaeth isradd" yw tenantiaeth y mae adran 143A o Ddeddf Tai 1996 yn gymwys iddi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** A. 8 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 11(1)**

*Cyffredinol*

## 9 Pŵer drwy reoliadau i wneud diwygiadau canlyniadol etc.

Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud unrhyw ddarpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, ddarfodol neu drosiannol neu unrhyw ddarpariaeth arbed y maent yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus o ganlyniad i, neu at ddiben rhoi effaith lawn i, unrhyw ddarpariaeth o'r Ddeddf hon neu unrhyw ddarpariaeth a wneir oddi tani (pa un ai o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth a wneir yn Neddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (dccc 1) neu oddi tani, neu fel arall).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** A. 9 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 11(1)**

## 10 Darparieth bellach ynghylch rheoliadau o dan adran 9

(1) Mae'r pŵer yn adran 9 i wneud rheoliadau yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(2) Caiff rheoliadau o dan adran 9 ddiwygio, diddymu, dirymu neu addasu unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys darpariaeth o'r Ddeddf hon).

(3) Os yw'r is-adran hon yn gymwys, ni chaniateir i reoliadau o dan adran 9 gael eu gwneud oni bai bod drafft o'r offeryn statudol sy'n cynnwys y rheoliadau wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

(4) Mae is-adran (3) yn gymwys pan fo rheoliadau o dan adran 9 yn diwygio, yn addasu neu'n diddymu unrhyw ddarpariaeth mewn Deddf Seneddol neu Fesur neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru, pa un a yw'r offeryn statudol yn cynnwys unrhyw reoliadau eraill ai peidio.

(5) Pan na fo is-adran (3) yn gymwys, mae rheoliadau o dan adran 9 yn ddarostyngedig i'w diddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** A. 10 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 11(1)**

## 11 Dod i rym

(1) Daw'r adran hon ac adrannau 1, 8, 9, 10 a 12 i rym ar y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(2) Daw adrannau 2 i 5 i rym ar ddiwedd y cyfnod o 2 fis sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(3) Daw adrannau 6 a 7 i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol.

(4) Ond ni chaiff Gweinidogion Cymru bennu diwrnod i unrhyw un neu ragor o adrannau 6 neu 7 ddod i rym sydd cyn diwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(5) Caiff gorchymyn o dan yr adran hon wneud darpariaeth ddarfodol neu drosiannol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad â dod ag unrhyw ddarpariaeth o'r Ddeddf hon i rym.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I11** A. 11 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 11(1)**

## 12 Enw byr

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I12** A. 12 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 11(1)**

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 24/03/2018. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018. (See end of Document for details)*

VALID FROM 26/01/2019

## ATODLEN 1

(a gyflwynir gan adran 6(3))

## DIWYGIADAU A DIDDYMIADAU CANLYNIADOL

### *Deddf Cyllid 1981 (Finance Act 1981 (c. 35))*

1 (1) Mae Deddf Cyllid 1981 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 107 (awdurdodau lleol yn gwerthu tai am bris gostyngol), hepgorer is-adran (3C).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I13** Atod. 1 para. 1 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 11(3)**

### *Deddf Tai 1988 (Housing Act 1988 (c. 50))*

2 (1) Mae Deddf Tai 1988 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 81 (cydsyniad yn ofynnol ar gyfer gwarediadau dilynol penodol), yn is-adran (8), ym mharagraff (ab), hepgorer y geiriau o "or Part I" i ddiwedd y paragraff.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I14** Atod. 1 para. 2 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 11(3)**

### *Deddf Tai 1996 (Housing Act 1996 (c. 52))*

3 (1) Mae Deddf Tai 1996 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 10 (gosod anheddau a gwarediadau eraill nad yw'n ofynnol cael cydsyniad Gweinidogion Cymru iddynt), hepgorer is-adran (3).

(3) Mae adran 16 (hawl tenant i gaffael annedd) wedi ei diddymu.

(4) Mae adran 16A (estyn yr hawl i gaffael i anheddau a ariannwyd drwy grantiau o dan adran 27A) wedi ei diddymu.

(5) Mae adran 17 (hawl tenant i gaffael annedd: darpariaeth atodol) wedi ei diddymu.

(6) Mae adran 20 (grant prynu pan fo'r hawl i brynu'n cael ei arfer) wedi ei diddymu.

(7) Yn adran 24 (y gronfa enillion o warediadau), yn is-adran (2)—

(a) ym mharagraff (a)(i), hepgorer "section 16 above or";
(b) hepgorer paragraff (b);
(c) ym mharagraff (c), hepgorer "(b) or".

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 24/03/2018. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I15** Atod. 1 para. 3 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 11(3)**

*Deddf Cyllid 2003 (Finance Act 2003 (c. 14))*

4 (1) Mae Deddf Cyllid 2003 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 9 (treth dir y dreth stamp: hawl i brynu, lesoedd rhanberchnogaeth etc.), ym mharagraff 1 (trafodiadau'r hawl i brynu), hepgorer is-baragraff (5).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I16** Atod. 1 para. 4 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 11(3)**

*Deddf Tai 2004 (Housing Act 2004 (c. 34))*

5 (1) Mae Deddf Tai 2004 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 192 (hawl i brynu: atal drwy orchymyn llys), yn is-adran (3), yn lle paragraff (b) rhodder—

"(b) section 184 of the Housing and Regeneration Act 2008 (c. 17) (application of that Part in relation to the right to acquire a dwelling in England),".

(3) Yn adran 194 (datgelu gwybodaeth am orchmynion etc. mewn cysylltiad ag ymddygiad gwrthgymdeithasol), yn is-adran (4), yn lle paragraff (b) rhodder—

"(b) section 184 of the Housing and Regeneration Act 2008 (c. 17) (application of that Part in relation to the right to acquire a dwelling in England),".

(4) Mae adran 202 (hawl tenant sicr i gaffael annedd nad yw rhyddfraint ar y cyd yn effeithio arni) wedi ei diddymu.

(5) Mae adran 221 (estyn yr hawl i gaffael) wedi ei diddymu.

(6) Yn Atodlen 11 (landlordiaid cymdeithasol cofrestredig), hepgorer paragraffau 9 a 10.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I17** Atod. 1 para. 5 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 11(3)**

*Deddf Tai ac Adfywio 2008 (Housing and Regeneration Act 2008 (c. 17))*

6 (1) Mae Deddf Tai ac Adfywio 2008 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 62 (cyfeiriadau at Weinidogion Cymru), yn y tabl, yn y golofn gyntaf hepgorer y cyfeiriad at adran 17(1), (2)(b), (5)(b) a (6), ac yn yr ail golofn hepgorer y cofnod cyfatebol.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 24/03/2018. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018. (See end of Document for details)*

(3) Yn adran 63 (cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru), yn y tabl, yn y golofn gyntaf hepgorer y cyfeiriad at adran 17(7), ac yn yr ail golofn hepgorer y cofnod cyfatebol.

(4) Yn adran 149 (gwarediadau esempt), yn is-adran (8), hepgorer paragraff (b) (a'r "or" sy'n ei ragflaenu).

(5) Yn adran 181 (dehongli "publicly funded"), yn is-adran (6), ym mharagraff (b), yn lle "under section 16(4) of that Act" rhodder "by the Welsh Ministers".

(6) Yn adran 184 (hawl i gaffael: atodol), yn lle is-adrannau (1) a (2) rhodder—

"(1) The Secretary of State may by order—

(a) specify the amount or rate of discount to be given on the exercise of the right conferred by section 180, and

(b) designate rural areas in relation to dwellings in which the right conferred by that section does not arise.

(2) The provisions of Part 5 of the Housing Act 1985 apply in relation to the right to acquire under section 180—

(a) subject to any order under subsection (1) above, and

(b) subject to such other exceptions, adaptations and other modifications as may be specified by regulations made by the Secretary of State.

(3) The regulations may provide—

(a) that the powers of the Secretary of State under sections 164 to 170 of that Act (powers to intervene, give directions or assist) do not apply,

(b) that paragraphs 1 and 3 (exceptions for charities and certain housing associations), and paragraph 11 (right of appeal to Secretary of State), of Schedule 5 to that Act do not apply,

(c) that the provisions of Part 5 of that Act relating to the right to acquire on rent to mortgage terms do not apply,

(d) that the provisions of that Part relating to restrictions on disposals in National Parks etc. do not apply, and

(e) that the provisions of that Part relating to the preserved right to buy do not apply.

Nothing in this subsection affects the generality of the power conferred by subsection (2).

(4) The specified exceptions, adaptations and other modifications shall take the form of textual amendments of the provisions of Part 5 of that Act as they apply in relation to the right to buy under that Part; and any consolidating regulations shall set out the provisions of Part 5 as they so apply.

(5) Before making an order which would have the effect that an area ceased to be designated under subsection (1)(b), the Secretary of State shall consult—

(a) the local housing authority or authorities in whose district the area or any part of it is situated or, if the order is general in its effect, local housing authorities in general, and

(b) such bodies appearing to the Secretary of State to be representative of private registered providers as the Secretary of State considers appropriate.

(6) Regulations made under this section are consolidating regulations if they are made for the purposes of consolidating other regulations that are being revoked in the instrument containing the consolidating regulations."

(7) Mae adran 185 (hawl i gaffael: diwygiadau canlyniadol) wedi ei diddymu.

(8) Yn adran 320 (gorchmynion a rheoliadau), yn is-adran (7), ar ôl paragraff (a), mewnosoder—

"(aa) an order or regulations of the Secretary of State under section 184,".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I18** Atod. 1 para. 6 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 11(3)**

*Mesur Tai (Cymru) 2011 (mccc 5)*

7 (1) Mae Mesur Tai (Cymru) 2011 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Mae Rhan 1 wedi ei diddymu.

(3) Yn adran 89 (gorchmynion), hepgorer is-adrannau (2) i (4).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I19** Atod. 1 para. 7 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 11(3)**

*Deddf Atal Twyll Tai Cymdeithasol 2013 (Prevention of Social Housing Fraud Act 2013 (c. 3))*

8 (1) Mae Deddf Atal Twyll Tai Cymdeithasol 2013 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 7 (rheoliadau ynglŷn â phwerau i fynnu gwybodaeth), yn is-adran (7), ym mharagraff (e)(ii) ar ôl "under section 16 of the Housing Act 1996", mewnosoder "before the repeal of that section by the Abolition of the Right to Buy and Associated Rights (Wales) Act 2017 came into force".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I20** Atod. 1 para. 8 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 11(3)**

*Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (dccc 1)*

9 (1) Mae Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2, ym mharagraff 8 (ystyr "tenantiaeth hir"), yn is-baragraff (1)(c), yn lle "fel y mae'n cael effaith" rhodder "fel yr oedd y Rhan honno yn cael effaith".

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 24/03/2018. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018. (See end of Document for details)*

### Gwybodaeth Cychwyn

**I21** Atod. 1 para. 9 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 11(3)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 24/03/2018. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018.